Adroddiad ar Geisiadau a Dyfarniadau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau

(Mehefin 2016- Mai 2017)

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn raddol ledled y Deyrnas Unedig ers ei lansio ym mis Mehefin 2013, gan roi sylw penodol i'r cyfnod rhwng mis Mehefin 2016 a mis Mai 2017. Ceir yma amlinelliad o berfformiad gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais am Achrediad, sef eu perfformiad yn erbyn y safon ar lefel y modiwlau ac ar lefel y gofynion, gan fod yn ddangosydd rhagarweiniol i'r meysydd mwyaf cadarn ar draws archifau'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r meysydd hynny sydd ag anghenion datblygu parhaus.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ganlynol:

1) Nifer y ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau a'r ceisiadau ar gyfer Cam Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig
2) Nifer y gwasanaethau archifau a dderbyniodd Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig
3) Y ceisiadau yn ôl math o wasanaeth archifau
4) Ymweliadau dilysu a wnaed gan gyrff asesu
5) Y cyflawni a wnaed ar lefel y modiwlau
6) Y cyflawni a wnaed ar lefel y gofynion
7) Dadansoddiad o gamau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm y ceisiadau a adolygwyd ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau gan Banel Achredu Gwasanaeth Archifau. Nid yw'n cynnwys ceisiadau a ohirwyd gan Banel, heblaw am yn Adrannau 1 i 3 yr adroddiad (sef Nifer y Ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau ar draws y Deyrnas Unedig), oherwydd nid oes gan y ceisiadau hynny ganlyniad neu lefel asesiad wedi'u cadarnhau.

Mae'r atodiad yn cynnwys gwybodaeth ystadegol bellach ynghylch yr Achrediad Gwasanaeth Archifau ar gyfer 2013 hyd at fis Mai 2016, at ddibenion cyfeirio, pan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhrif destun yr adroddiad.

Crynodeb Gweithredol

Ers lansio'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae 76 o wasanaethau archifau wedi ymgeisio am Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig. Mae cyfanswm nifer y ceisiadau yn cynyddu bob blwyddyn a derbyniwyd 28 cais ledled y Deyrnas Unedig yn 2016-2017. Mae'r cyrff asesu yn parhau i wneud ymweliadau dilysu i'r holl wasanaethau archifau sy'n cyflwyno cais.

Cyflwynodd y cohort cyntaf o wasanaethau archifau achrededig eu ceisiadau Cam Adolygu yn ystod 2016 -2017 a llwyddodd pob un ohonynt i ddal gafael ar eu statws achrededig yn dilyn y Panel Achredu Gwasanaeth Archifau ym mis Mawrth.

Gan adlewyrchu'r bwriad i gyflwyno'r rhaglen yn raddol yng Nghymru a Lloegr, mae ceisiadau gan wasanaethau archifau sy'n perthyn i'r grŵp *Awdurdod lleol math 2* yn parhau i fod yn ganran sylweddol o'r holl ymgeiswyr (54%).

Eleni cafwyd cynnydd yn nifer y dyfarniadau Achrediad Dros Dro. O'r 28 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais, dyfarnwyd achrediad dros dro i 22% ohonynt.

O ran cyflawni yn erbyn gofynion y safon, *Modiwl 2: Casgliadau* yn dal yw'r maes gwannaf drwyddi draw, a hyn yn adlewyrchu bod rhai archifau yn parhau i fod â phroblemau storio yn ogystal â'r angen parhaus i gynllunio ar gyfer catalogio casgliadau. Mae'r angen i ddatblygu capasiti i reoli casgliadau sydd wedi'u geni yn ddigidol yn faes gwendid arall a nodwyd ac adlewyrchir hynny eto wrth gyflawni yn erbyn gofyniad *1.4 Adnoddau: Gofod* ynghyd â'r angen mewn rhai gwasanaethau archifau i ehangu a datblygu capasiti i storio analog a chofnodion.

Mae pob gwasanaeth archifau yn cael adborth ar eu cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella.

Mae themâu cyffredin yn y camau gweithredu gofynnol yn cynnwys:

- datblygu gofod storio newydd
- gwella'r amodau amgylcheddol yn yr ardaloedd storio
- datblygu'r gallu i amlyncu a storio cofnodion wedi'u geni yn ddigidol

Mae themâu cyffredin yn y camau gweithredu i wella yn cynnwys:

- adeiladu ar ddatblygiadau i reoli cofnodion wedi'u geni'n ddigidol
- gwella trosglwyddo cofnodion o riant-sefydliad
- gwella amodau storio
- datblygu allgymorth a dysgu, a hynny'n seiliedig ar ymchwil i anghenion y gynulleidfa
- datblygu gwybodaeth ar-lein i gael mynediad at gasgliadau

Cam Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

1) Nifer y ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau yng ngham Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

Ceisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2014)	14	12	0	1	1
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2014 i fis Mai 2015)	14	10	0	2	2
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2015 i fis Mai 2016)	20	15	0	2	3
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2016 i fis Mai 2017)	28	24	0	1*	3
Cyfanswm Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2017)	76	61	0	6	9

*Adolygwyd un cais gan dîm asesu ar y cyd o TNA a'r NRS gan fod y gwasanaeth archifau wedi'i leoli yn yr Alban ond bod eu prif swyddfa wedi'i leoli yn Lloegr

Ers lansio'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae 76 o wasanaethau archifau wedi cyflwyno cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau ledled y Deyrnas Unedig – 61 yn Lloegr, chwech yn yr Alban a naw yng Nghymru.

Mae cyfanswm nifer y ceisiadau ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer 2016-17 wedi cynyddu unwaith eto, gyda chryn gynnydd yn nifer y ceisiadau yn Lloegr.

Mae'r ffigyrau ar gyfer y cyfnod Mehefin 2016 i fis Mai 2017 yn cynnwys cais yn Lloegr a gafodd ei ohirio gan Banel Achredu yn gynharach yn 2016. Yn yr un modd, mae'r ffigyrau ar gyfer mis Mehefin 2015 i fis Mai 2016 (Lloegr) yn cynnwys cais a gafodd ei ohirio yn flaenorol o'r cyfnod Mehefin 2014 i fis Mai 2015.

Ceisiadau yng ngham Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer Ceisiadau'r Cam Adolygu	0	7	0	0	0

Yn ogystal, cyflwynodd y cohort cyntaf o wasanaethau archifau achrededig eu ceisiadau Cam Adolygu yn 2016/2017.

Mae'r Cam Adolygu yn gam 'cofrestru' (*check in*) i wasanaethau archifau dair blynedd ar ôl dyfarnu achrediad iddynt am y tro cyntaf. Mae'r gwasanaethau archifau yn rhoi gwybod i gorff asesu eu gwlad am unrhyw newidiadau ers dyfarnu'r Achrediad iddynt, er enghreifftiau newidiadau i adnoddau, strwythur, adeiladau, neu bolisïau a chynlluniau newydd/diwygiedig yn ymwneud â chasgliadau neu fynediad.

2) Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

Mae'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn defnyddio graddadwyedd (*scalability*) ffurfiol i nodi'r mathau o wasanaethau archifau sy'n gwneud cais am yr achrediad, ac yn rhoi amlinelliad o'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau archifau o wahanol fath a maint. Dyma ddadansoddiad o'r mathau o wasanaethau archifau yn ôl y graddadwyedd hyn.

Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau Mehefin 2016 i fis Mai 2017

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	1	1	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	15	13	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	8	7	0	0	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	1	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	1	0	1	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	1	1	0	0	0
Cyfanswm	28	24	0	1*	3

(Mae'r ffigyrau'n cynnwys cais wedi'i ohirio) (*Mae'r gwasanaeth archifau wedi'i leoli yn yr Alban ond mae prif swyddfa'r sefydliad wedi'i leoli yn Lloegr)

Mae ceisiadau o'r gwasanaethau archifau y nodwyd eu bod yn perthyn i'r grŵp *Awdurdod Lleol math 2* (sy'n cynnwys holl Fannau Adneuo awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, hyd yn oed os yw eu daliadau a maint eu cynulleidfa yn gyffredinol yn fach) yn parhau i gynrychioli canran arwyddocaol o'r holl ymgeiswyr (54%).

Sector cyhoeddus arall math 2 yw'r ail grŵp mwyaf ei faint o ran nifer y ceisiadau ac mae'n cynnwys sawl amgueddfa genedlaethol ac archif prifysgol.

Mae'r *sector preifat a'r trydydd sector* yn parhau i fod y grŵp lleiaf o ran nifer y ceisiadau.

Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau 2013 i fis Mai 2017

2013 i fis Mai 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	2	1	0	1	0
Awdurdod lleol math 2	39	33	0	0	6
Sector cyhoeddus arall math 1	2	1	0	0	1
Sector cyhoeddus arall math 2	17	13	0	3	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	2	2	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	7	6	0	1	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	5	5	0	0	0
Cyfanswm	74	61	0	5	8

Mae rhychwant y ceisiadau yn ôl y mathau gwahanol o wasanaethau archifau ledled gwledydd Prydain yn adlewyrchu rhoi'r rhaglen arfaethedig ar waith fesul cam ledled pob un o'r gwledydd. Er enghraifft, i'r Archifau Cenedlaethol, sef y corff asesu yn Lloegr, mae gwasanaethau archifau awdurdodau lleol sy'n Fannau Adneuo yn grŵp blaenoriaeth yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol, ond caiff gwasanaethau archifau nad oedd yn gymwys i gymryd rhan mewn cynlluniau safonol blaenorol hefyd eu hannog i wneud cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd gwasanaethau archifau awdurdodau lleol i wneud cais am achrediad yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Yn yr Alban, mae Cyngor yr Alban ar Archifau (SCA) a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) yn ymdopi â gallu asesu cyfyngedig ym mlynyddoedd cynnar y cynllun.

3) Nifer yr ymweliadau dilysu a gynhaliwyd gan gyrff asesu gwledydd Prydain

Wrth asesu cais ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau, gall cyrff asesu hefyd ymweld â gwasanaeth archifau'r ymgeisydd. Mae'r ymweliad hwn yn gyfle i'r asesydd ddilysu elfennau o'r cais, adolygu unrhyw ddogfennaeth nad ydynt yn addas i'w cyflwyno fel rhan o'r cais, a hefyd edrych o amgylch y safle.

Dyma gyrff asesu gwledydd y Deyrnas Unedig:

- Yr Archifau Cenedlaethol (TNA) i Loegr
- Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (PRONI) i Ogledd Iwerddon
- Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) a Chyngor yr Alban ar Archifau (SCA) i'r Alban
- Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (MALD), Llywodraeth Cymru i Gymru

Ymweliadau dilysu ceisiadau ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archifau

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	TNA	PRONI	NRS/SCA	MALD
Cynhaliwyd	100%	*amherthnasol*	100%	100%
Nis cynhaliwyd	0	*amherthnasol*	0	0

Yng Nghymru a'r Alban mae'r cyrff asesu wedi gwneud ymrwymiad i ymweld â phob un o'r gwasanaethau sy'n gwneud cais, a llwyddwyd i gyflawni hynny. Yn Lloegr, y polisi yw ymweld ag o leiaf 25% o'r gwasanaethau archifau sy'n gwneud cais ym mhob rownd ac, yn hyn o beth, mae'r Archifau Cenedlaethol wedi cyflawni 100% o ymweliadau gan y tîm asesu, oherwydd nifer cymharol fach yr ymgeiswyr yn ystod y cyfnod hwn a'r angen i hyfforddi'r timau asesu ac adolygu cyfoedion.

Ymweliadau dilysu ceisiadau Cam Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	TNA	PRONI	NRS/SCA	MALD
Cynhaliwyd	14%	*amherthnasol*	*amherthnasol*	*amherthnasol*
Nis cynhaliwyd	0	*amherthnasol*	*amherthnasol*	*amherthnasol*

Yn Lloegr penderfynodd yr aseswyr ymweld ag un safle yn unig o'r saith cais yn y Cam Adolygu. Gwnaed un ymweliad safle i adolygu lleoliad nas gwelwyd yn ystod y cylch asesu gwreiddiol.

Nifer y gwasanaethau archifau sy'n cael statws achrededig

Panel Achredu Gwasanaeth Archifau sy'n dyfarnu Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae tri chanlyniad posibl:

- Achrediad: Mae'r gwasanaeth archifau wedi dangos ei fod yn cyflawni'r safon
- Achrediad Dros Dro: Mae'r gwasanaeth archifau yn agos at gyflawni gofynion y safon. Dyfernir Achrediad Dros Dro am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, er mwyn rhoi sylw i un neu ddau o feysydd datblygiad o bwys
- Dim Achrediad: Mae angen i'r gwasanaeth archifau ddatblygu mewn meysydd arwyddocaol cyn cyflawni'r safon

Gall y Panel gynghori gohirio cais os yw'r gwasanaeth archifau yn mynd trwy gyfnod o newid mawr, er enghraifft, newid o ran llywodraethu neu newid yn y gwasanaethau y mae'n eu cynnig.

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	21	17	0	1	3
Achrediad dros dro	6	6	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

Dyfarnwyd achrediad llawn i 21 o wasanaethau archifau gan y Panel Achredu Gwasanaeth Archifau ac fe gafodd chwech ohonynt achrediad dros dro. Yn wir, mae nifer cynyddol o wasanaethau archifau yn derbyn y dyfarniad 'achrediad dros dro'. O fis Mehefin 2016 i fis Mai 2017 roedd 22% o'r gwasanaethau archifau a gafodd achrediad wedi cael achrediad dros dro, tra drwy gydol y cyfnod o 2013 hyd at fis Mai 2017 yn ei gyfanrwydd, dim ond 12% o'r gwasanaethau archifau y dyfarnwyd achrediad iddynt oedd wedi cael un dros dro. Mae'n debygol y gellir egluro hyn gan y ffaith, yn enwedig yn Lloegr, fod gwasanaethau archifau sydd â storio gwael iawn, o ran amodau amgylcheddol neu o ran diffyg lle i ehangu, nawr yn gwneud cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau wrth gynllunio i symud i lefydd storio gwell, gan fod Mannau Adneuo hyd at ddiwedd 2017 bellach yn grŵp blaenoriaeth i wneud ceisiadau.

Roedd yr holl wasanaethau archifau a aseswyd fel rhan o Gam Adolygu'r Achrediad Gwasanaeth Archifau wedi cadw eu statws achrededig.

Gellir gweld cyfanswm y gwasanaethau archifau a dderbyniodd achrediad rhwng 2013 a mis Mai 2017 yn atodiad A.

4) Cyflawni ar lefel modiwlau'r Achrediad Gwasanaeth Archifau

Asesir pob cais yn gyffredinol ym mhob un o dri modiwl y safon Achredu, yn ogystal ag asesiad manwl yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad. Byddai 'Heb ei Gyflawni' mewn unrhyw fodiwl yn golygu y byddai'n amhosibl dyfarnu Achrediad.

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	26	1	0
Casgliadau	20	7	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	27	0	0

Llwyddodd 26 o'r gwasanaethau archifau a achredwyd i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Iechyd Sefydliadol. Yn achos y gwasanaeth archifau a lwyddodd i rannol gyflawni'r safon teimlwyd bod y gwasanaeth archifau yn gweithredu o dan anawsterau difrifol o ran adnoddau er bod cyflawni gwasanaeth yn parhau i fod yn effeithiol.

Llwyddodd 20 o'r gwasanaethau archifau a achredwyd hefyd i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Casgliadau, a saith ohonynt wedi cyflawni'n rhannol yn y maes hwn. Yn yr achosion hyn, roedd hyn oherwydd asesu cryn nifer o ofynion i fod wedi'u cyflawni'n rhannol yn y maes hwn, yn enwedig yn ymwneud â storio, monitro amgylcheddol a dulliau mynd ati i gatalogio, gan gynnwys ôl-groniadau catalogio helaeth.

Llwyddodd pob un o'r 27 gwasanaeth archifau a achredwyd i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Rhanddeiliaid a'u Profiadau.

2013 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	71	2	0
Casgliadau	60	12	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	72	1	0

5) Cyflawni ar lefel gofynion yr Achrediad Gwasanaeth Archifau

Asesir pob ymgeisydd hefyd yn benodol yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad y safon. Mae hyn yn rhoi modd dadansoddi'n fanylach sut mae gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob elfen o'r safon.

a) Gofynion ar gyfer y Modiwl Iechyd Sefydliadol

Mae Iechyd Sefydliadol yn edrych ar y meysydd hynny sy'n sail i brosesau hirdymor derbyniadau, cadwraeth a pha mor hygyrch yw casgliadau archifau.

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	26	1	0
1.2 Llywodraethu	27	0	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	24	3	0
1.4 Adnoddau: Gofod	12	15	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	25	2	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	24	3	0

Gofyniad **1.4 Adnoddau: Gofod** sy'n parhau i fod y maes gwannaf, ac am y tro cyntaf aseswyd bod dau wasanaeth archifau yn rhannol gyflawni'r gofyniad **1.5 Adnoddau: Cyllid**.

Aseswyd bod pob un o'r 27 gwasanaeth yn bodloni gofyniad 1.2 yn llawn.

O ran y gofyniad **1.4 Adnoddau: Gofod**, roedd 44% o'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad hwn yn llawn. Pan nad oedd gwasanaethau archifau yn bodloni'r gofyniad hwn yn llawn, roedd hyn oherwydd diffyg gofod i ehangu i gadw casgliadau – boed analog neu ddigidol – ac mewn rhai achosion diffyg gofod ystafell ddarllen neu ofod rheoli casgliadau. Aseswyd bod 24 o'r 27 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais (sef 89% ohonynt) yn cyflawni'r gofyniad **1.3 Cynllunio Ymlaen** yn llawn. Yn yr achosion hynny lle aseswyd bod gwasanaethau archifau yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn, teimlwyd y dylai'r gwasanaethau archifau fynd ati i fonitro'n well y cynnydd yn erbyn cynlluniau a sicrhau bod cynllunio wedi'i integreiddio'n dynnach ledled y gwasanaeth.

Aseswyd bod dau o'r 27 gwasanaeth archifau (7%) yn rhannol gyflawni gofyniad **1.5 Adnoddau: Cyllid.** Yn y ddau achos, nid oedd y gwasanaeth archifau wedi gallu dangos yn llawn lefelau cyllid cynaliadwy i alluogi cyflawni amcanion hirdymor neu wedi gallu dangos lefelau cyllid i gefnogi darparu gwasanaethau ar y lefelau presennol.

Aseswyd bod 24 o'r 27 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais yn llawn gyflawni'r gofyniad **1.6 Adnoddau: Gweithlu**. Yn achos dau wasanaeth archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn, teimlwyd bod y capasiti staff wedi'i ymestyn yn sylweddol mewn

perthynas â'r ystod o weithgareddau a wneir gan y gwasanaethau. Yn achos y trydydd gwasanaeth archifau, teimlwyd y byddai creu swydd archifydd newydd o fewn y strwythur staffio yn gwella darpariaeth y gwasanaeth yn ddirfawr.

Roedd pob un gwasanaeth archifau namyn un wedi cyflawni'r gofyniad **1.1 Datganiad Cenhadaeth**. Yn yr achos hwnnw nid oedd y Datganiad Cenhadaeth ar gael yn gyhoeddus eto.

2013 i fis Mai 2017

	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	72	1	0
1.2 Llywodraethu	71	2	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	66	7	0
1.4 Adnoddau: Gofod	48	25	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	71	2	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	68	5	

Mae'n werth ei gwneud yn glir o ran y gwasanaethau lle gwnaed y penderfyniad i ohirio achrediad, ac felly heb eu cyfrif yn y dadansoddiad hwn, y gwendidau allweddol a welwyd oedd rhai yn ymwneud â gofyniad **1.5 Adnoddau: Cyllid**, a diffyg eglurder neu ostyngiad sylweddol yn y maes hwn, ac yn ymwneud â gofyniad **1.2 Llywodraethu** lle roedd y gwasanaeth archifau yn mynd drwy gryn newid yn ei drefniadau llywodraethu.

b) **Gofynion ar gyfer y Modiwl Casgliadau**

Mae'r modiwl Casgliadau yn archwilio gallu gwasanaeth archifau i ddatblygu casgliadau, ac i ofalu a chadw gwybodaeth amdanynt.

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
2.1 Rheoli Casgliadau	27	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	27	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	14	13	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	25	2	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	10	17	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	26	1	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	21	6	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	21	6	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	10	17	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	20	7	0

Yn y modiwl hwn, aseswyd bod pob un o'r 27 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais yn cyflawni'r gofynion **2.1 Rheoli Casgliadau** a **2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau**, gan adlewyrchu'r mabwysiadu eang ar bolisïau casglu ar draws y sector.

Roedd 52% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni gofyniad **2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau.** Mewn achosion o gyflawni'r gofyniad hwn yn rhannol, cafwyd materion a oedd yn cynnwys diffyg trosglwyddo cofnodion o riant-sefydliad, gan gynnwys mecanwaith trosglwyddo ar gyfer cofnodion wedi'u geni yn ddigidol, cynllunio cyfyngedig ar weithredu'r Polisi Datblygu Casgliadau, a diffyg lle i ehangu a oedd yn cyfyngu ar gasglu.

Aseswyd bod 93% o'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais yn cyflawni'r gofyniad **2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau**. Pan aseswyd bod gwasanaethau archifau yn rhannol gyflawni'r gofyniad hwn, teimlwyd y byddau ehangu polisïau presennol (catalogio) i adlewyrchu'r holl ddulliau presennol o gofnodi gwybodaeth am gasgliadau yn arddangos yn gywirach ymagwedd gyffredinol y gwasanaeth archifau i'w rhanddeiliaid. Aseswyd bod 37% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais yn cyflawni'r gofyniad **2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau**. Mae asesiad o rannol gyflawni fel rheol yn adlewyrchu cryn ôl-groniadau catalogio, gan gynnwys yr angen i wella'r wybodaeth gatalogio bresennol. Mewn achosion eraill, nododd yr aseswyr yr angen am gynllun catalogio mwy systematig sydd â blaenoriaethau catalogio pendant i gynorthwyo â mynd i'r afael ag ôl-groniadau catalogio.

Yn y maes gofalu am gasgliadau, roedd y gwasanaethau a gyflwynodd gais yn gyffredinol yn ymwybodol iawn pan oedd cyfyngiadau ar ansawdd y gadwraeth y gallent ei chynnig. Mae asesiad o rannol gyflawni o ran polisi ac/neu weithdrefnau yn yr adran hon yn adlewyrchu rheolaeth effeithiol barhaus ar broblemau storio. Mae'r Panel Achredu wedi gosod hyn yn gynsail. Mewn rhai achosion mae hefyd angen mynd i'r afael â chapasiti i storio cofnodion wedi'u geni yn ddigidol. Yn yr achosion hynny lle cafwyd cyflawni rhannol ar ofyniad **2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau**, teimlwyd bod angen i'r gwasanaethau archifau ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r peryglon i gasgliadau neu gryfhau cynlluniau er mwyn lleihau'r risgiau i gasgliadau. Aseswyd bod 26% o'r ymgeiswyr wedi rhannol gyflawni'r gofyniad **2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb.** Yn yr achosion hyn teimlwyd y dylai'r gwasanaeth archifau un ai ddiweddaru eu cynllun trychineb neu ei roi ar brawf.

2013 i fis Mai 2017

2013 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	69	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	72	1	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	48	25	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	60	13	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	40	33	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am	70	3	0

Gasgliadau			
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	61	11	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	62	11	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	36	36	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	64	9	0

Ers lansio'r Achrediad Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais wedi dangos cryfder arbennig ar ddatblygu casgliadau ar lefel polisi ac o ran gweithdrefnau gwybodaeth am gasgliadau.

Mewn llawer o achosion, diffyg lle i ehangu sy'n rhwystro mynd ati'n rhagweithiol i gasglu a hynny wedi'i adlewyrchu yn yr asesiad cyffredinol ar ofyniad **2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau**.

Mae'r ôl-groniadau sylweddol yn y catalogio yn cael eu hadlewyrchu unwaith eto yn natur yr asesu ar ofyniad **2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau**.

Aseswyd bod 50% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi rhannol gyflawni'r gofyniad **2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau**. Roedd hyn yn bennaf oherwydd problemau parhaus ag amodau amgylcheddol yn y cadwrfeydd, ac mae'n adlewyrchu her y stoc adeiladau presennol drwy'r sector cyfan.

c) Gofynion ar gyfer y Modiwl Rhanddeiliaid a'u Profiadau

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar allu gwasanaeth archifau i ddarparu a datblygu mynediad at ei gasgliadau, mewn ymateb i anghenion ei gymuned.

Mehefin 2016 i fis Mai 2017

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	26	1	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	23	4	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	26	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	25	2	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	23	4	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	27	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	27	0	0

Roedd pob un o'r 27 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr**. Mae hyn yn unol â'r disgwyliadau fod y mwyafrif helaeth o wasanaethau archifau wedi sefydlu dulliau arferol i ddefnyddwyr fedru edrych ar ddefnyddiau gwreiddiol

Aseswyd hefyd fod pob un o'r 27 gwasanaeth archifau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'n llawn y gofyniad fod **3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad** ar gael. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau archifau yn sylweddoli bod gwahanol gynulleidfaoedd yn dymuno ymgysylltu â chasgliadau mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar natur y casgliad a chenhadaeth y gwasanaeth archifau.

Roedd 96% o'r gwasanaethau archifau wedi cyflawni'r is-ofyniad **3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd**. Teimlwyd nad oedd gan y gwasanaethau archifau hynny a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni o dan y gofyniad hwn ddigon o fecanweithiau ar waith i gasglu adborth i fwydo i ddatblygiad parhaus y gwasanaeth.

Yn yr un modd, yn achos is-ofyniad **3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd**, aseswyd fod 85% o wasanaethau archifau yn cyflawni'r is-ofyniad hwn. Yn achos y gwasanaethau archifau a aseswyd i fod yn rhannol gyflawni'r is-ofyniad hwn, teimlwyd nad oedd y gwasanaethau archifau yn casglu digon o wybodaeth am anghenion rhai o'u grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft defnyddwyr presennol neu ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth archifau.

Cyflawnodd 85% o'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais yr is-ofyniad **3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad**. Roedd y rhesymau dros gyflawni'r gyflawni'r gofyniad hwn yn rhannol yn cynnwys diffyg gwybodaeth am y casgliadau ar-lein ar gyfer y math o wasanaeth archif neu bod yr oriau agor yn rhy gyfyngedig i'r math o wasanaeth archif a'i gymuned.

2013 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	66	7	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	65	8	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	67	6	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	69	4	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	67	6	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	72	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	72	1	0

Gellir egluro ehangder y gofynion ac is-ofynion a aseswyd ar ffurf y sylwebaeth uchod. Yn achos gofyniad **3.1 Polisi Mynediad**, o ran gwasanaethau archifau a gyflawnodd y gofyniad hwn yn rhannol, roedd hyn oherwydd bod y polisi angen cymeradwyaeth ffurfiol, yr angen i ehangu'r polisi i gynnwys cyfyngiadau ar fynediad neu ddyheadau presennol y gwasanaeth, neu ddiffyg polisi mynediad cyffredinol.

7) Camau Gweithredu Gofynnol a Chamau Gweithredu i Wella

Mae pob gwasanaeth archifau yn cael adborth ar eu cais am Achrediad Gwasanaeth Archifau, a'r adborth hwnnw yn dangos sut mae eu gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob un o ofynion y safon. Mae rhan o'r adborth hwn ar ffurf camau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu i wella, sy'n darparu arweiniad ar sut y gall y gwasanaeth gyflawni'r safon yn fwy llwyddiannus. Mae'n rhaid cyflawni Camau Gweithredu Gofynnol er mwyn parhau i gyflawni'r safon a chadw'r Achrediad Gwasanaeth Archifau yn y dyfodol. Mae'r Camau Gweithredu i Wella yn cefnogi gwaith datblygu'r gwasanaeth archifau.

Yn ôl modiwl

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Camau Gweithredu i Wella	Camau Gweithredu Gofynnol
Iechyd Sefydliadol	46	41
Casgliadau	83	65
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	54	16

Yn ôl gofynion

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Camau Gweithredu i Wella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	4	0
1.2	7	1
1.3	10	5
1.4	15	28
1.5	3	2
1.6	7	5
2*	1	0
2.1	4	0
2.2	20	3
2.2.1	6	4
2.2.2	8	4
2.3*	8	2
2.3.1	5	1
2.3.2	12	2
2.3.3	7	0
2.4*	12	18
2.4.1	1	4
2.4.2	6	8
2.4.3	8	11
2.4.4	5	8
3	1	0

3.1	10	1
3.2*	18	4
3.2.1	5	1
3.2.2	5	3
3.2.3	3	2
3.3*	6	0
3.3.1	3	4
3.3.2	1	1
3.3.3	2	0

*Sylwer bod rhai camau gweithredu yn adlewyrchu angen cyffredinol i wella mewn maes megis gofalu am gasgliadau neu gynllunio cynulleidfa, a gellid eu gosod ar lefel gofyniad yn hytrach nag is-ofyniad.

a) Camau Gweithredu Gofynnol:

Themâu cyffredin

- *Datblygu gofod storio newydd, a gwella'r amodau amgylcheddol yn yr ardaloedd storio*
- *Datblygu'r gallu i amlyncu a storio cofnodion wedi'u geni yn ddigidol*

Iechyd Sefydliadol: Yn y maes hwn, roedd y camau gweithredu gofynnol yn cynnwys nifer o themâu gwahanol:

- yr angen am ofod storio newydd, yn enwedig ar gyfer cofnodion analog neu ddigidol (neu'r ddau), ac yn cynnwys bwrw ymlaen â chynlluniau presennol yn y meysydd hyn
- sicrhau cyllid i ariannu cyfleusterau newydd neu i gynnal y lefelau staffio presennol neu rolau newydd
- ffurfioli cytundebau lefel gwasanaeth
- datblygu creu incwm

Casgliadau: Yn y modiwl hwn y nododd yr aseswyr y nifer uchaf o gamau gweithredu gofynnol. Roedd y camau gweithredu yn cynnwys y meysydd canlynol:

- datblygu gwybodaeth a gallu i gasglu a rheoli cofnodion wedi'u geni yn ddigidol
- cadwraeth a rheoli risgiau mewn storfeydd, yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, systemau rheoli adeiladau a diogelwch parhaus (mae hyn yn gam gweithredu gofynnol gorfodol i wasanaethau nad oes ganddynt ofod storio sy'n cydymffurfio'n llwyr â PD5454), mynediad i gyngor proffesiynol ar gadwraeth, asesu risg ffurfiol ar gasgliadau, profi'r cynllun trychineb.
- gwella catalogio cyflwr casgliadau

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Nododd aseswyr y nifer lleiaf o gamau gweithredu gofynnol yn y modiwl hwn. Roedd camau yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- datblygu casglu data i wella dealltwriaeth o gynulleidfaoedd a'u hanghenion
- gwella cynllunio strategol a blaenoriaethu ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithredu unrhyw gynlluniau
- gwella mynediad i'r anabl
- gwella gwybodaeth ar y wefan ynghylch casgliadau a chael mynediad atynt gan gynnwys catalog ar-lein
- rhoi modd cael mynediad at gofnodion wedi'u geni'n ddigidol

Camau Gweithredu i Wella:

Themâu cyffredin

- *Adeiladu ar ddatblygiadau cadwraeth ddigidol*
- *Gwella trosglwyddo cofnodion o riant-sefydliad*
- *Gwella dulliau storio a chadw ar gyfer y gwasanaeth archifau*
- *Datblygu'r arlwy o ran mynediad gan gynnwys allgymorth a dysgu, yn enwedig drwy ymchwilio i'r gynulleidfa*
- *Datblygu gwybodaeth ar-lein a mynediad o bell, yn cynnwys y catalog*
- *Adolygu polisïau a'u cyhoeddi ar y wefan*

Mae camau gweithredu i wella yn tueddu i fod yn eithaf amrywiol ac yn aml yn fwy penodol i wasanaethau archifau unigol a'u hamgylchiadau. Er hynny mae rhai tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Iechyd Sefydliadol: Nodwyd y nifer lleiaf o gamau gweithredu gwella gan yr aseswyr yn y modiwl hwn, a'r rheiny'n cwmpasu holl ofynion y modiwl hwn yn y themâu canlynol: datblygu'r datganiad cenhadaeth; cyllid arallgyfeirio; gwell monitro ar gynlluniau i'r dyfodol, rhagor o gyfleoedd i gael mynediad at hyfforddiant. Mae nifer sylweddol yn ymwneud â gofyniad 1.4 gyda storio, ystafelloedd cadw a chadwraeth ddigidol yn bwyntiau gweithredu a oedd yn ymddangos dro ar ôl tro yma.

Casgliadau: Rhestrodd aseswyr y nifer uchaf o gamau gweithredu i wella gwasanaethau archifau mewn perthynas â gofynion yn y modiwl hwn (sydd â'r nifer uchaf o ofynion). Mae'r gweithredu yn ymwneud ag ehangu polisïau i adlewyrchu arferion cyfredol; profi'r cynllun trychineb; parhau i ddatblygu arferion cadwedigaeth ddigidol; lleihau ôl-groniadau catalogio; parhau i reoli'r amgylchedd cadwraeth; datblygu cynllunio i gefnogi gweithredu polisïau casgliadau; gwella trosglwyddo cofnodion o riant-sefydliad.

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Nodwyd nifer o gamau gweithredu i wella yn y modiwl hwn gan yr aseswyr. Roeddynt yn cynnwys y themâu canlynol: datblygu ac adeiladu ar waith

partneriaethau sy'n bodoli eisoes i gryfhau cyrhaeddiad gwasanaethau archifau; datblygu'r dadansoddi ar ddata a gasglwyd yn ymwneud â chynulleidfaoedd; gwella gwybodaeth ar-lein; datblygu gweithgareddau dysgu ac allgymorth i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.

Cam Adolygu

Fel rhan o gais y Cam Adolygu, mae gwasanaethau archifau achrededig yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'w gwasanaethau archifau, er enghraifft o ran adnoddau, ailstrwythuro, cynllunio ymlaen, diwygio polisïau. Mae hyn yn golygu y gall yr asesiad gwreiddiol yn erbyn pob gofyniad newid o bosibl.

Mae'r tabl isod yn dangos ymhle y gwnaed newidiadau i'r asesiad gwreiddiol yn dilyn y cais cyntaf am Achrediad Gwasanaeth Archifau.

Lefel modiwl 2016-2017

	Iechyd Sefydliadol	Casgliadau	Rhanddeiliaid a'u Profiadau
Wedi'i Gyflawni i Gyflawni'n Rhannol	1	0	0
Cyflawni'n Rhannol i Wedi'i Gyflawni	0	1	0
Cyflawni'n Rhannol i Heb ei Gyflawni	0	0	0

Lefel gofynion 2016-2017

Gofyniad	Wedi'i Gyflawni i Gyflawni'n Rhannol	Cyflawni'n Rhannol i Wedi'i Gyflawni
1.1	0	0
1.2	1	0
1.3	0	0
1.4	0	0
1.5	0	0
1.5	0	0
1.6	1	0
2.1	0	0
2.2.	0	0
2.2.1	0	0
2.2.2	0	1
2.3	0	0
2.3.1	0	0

2.3.1	0	1
2.3.2	0	2
2.3.3	0	1
2.4	0	0
2.4.1	0	0
2.4.2	0	0
2.4.3	0	1
2.4.4	0	0
3.1	0	2
3.2	0	0
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	0
3.3	0	0
3.3.1	0	0
3.3.2	0	0
3.3.3	1	0

Roedd y tri newid ar lefel y gofynion o gyflawni'n llawn i gyflawni'n rhannol yn ymwneud â gofynion 1.2, 1.6 a 3.3.3.

Cafwyd pedwar newid ar lefel y gofynion o gyflawni'n rhannol i gyflawni'n llawn, gan adlewyrchu cymeradwyo ffurfiol ar bolisi newydd neu adolygu polisi oedd wedi mynd yn hen ac mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau archifau yn gwneud cynnydd â chasgliadau dros amser ac wedi'u heffeithio gan y newidiadau fel y gwelir ym modiwl un a dau yn y tymor byrrach.

Atodiad

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ychwanegol am yr Achrediad Gwasanaeth Archifau at ddibenion cyfeirio, sef gwybodaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau am Achrediad Gwasanaeth Archifau a dderbyniwyd o 2013 hyd at fis Mai 2016. Gallai fod yn ddefnyddiol cymharu'r wybodaeth ystadegol sydd yma â'r wybodaeth ystadegol sydd yn y prif adroddiad.

1 Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

2013 i fis Mai 2015	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	1	0
Awdurdod lleol math 2	11	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	1	0	0	1
Sector cyhoeddus arall math 2	4	0	2	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	0	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	3	0	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	9	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	2	0	1	1
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	2	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	1	0	0	0

2) Ymweliadau dilysu a wnaed mewn ymateb i geisiadau

2013 i fis Mai 2016	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
2013 – Mai 2014	93%	*amherthnasol*	100%	100%
Mehefin 2014 i fis Mai 2015	100%	*amherthnasol*	100%	100%

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	100%	*amherthnasol*	100%	100%

3) Nifer y gwasanaethau archifau yn cael statws achrededig

2013 i fis Mai 2014	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	10	0	1	1
Achrediad Dros Dro	2	2	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	8	0	2	2
Achrediad Dros Dro	0	0	0	0	0
Dim Achrediad	1	1	0	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	18	13	0	2	3
Achrediad Dros Dro	1	1	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

2013 i fis Mai 2017	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	63	48	0	6	9
Achrediad Dros Dro	9	9	0	0	0
Dim Achrediad	1	0	0	0	0

4) Cyflawni ar lefel modiwl

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	14	0	0
Casgliadau	11	3	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	14	0	0

Mai 2014 i fis Mehefin 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	13	0	0
Casgliadau	11	1	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	13	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	18	1	0
Casgliadau	18	1	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	18	1	0

5) Cyflawni ar lefel gofynion

Iechyd Sefydliadol

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	14	0	0
1.2 Llywodraethu	14	0	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	12	2	0
1.4 Adnoddau: Gofod	12	2	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	14	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	13	0	0
1.2 Llywodraethu	12	1	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	12	1	0
1.4 Adnoddau: Gofod	9	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	13	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	13	0	0

Mehefin 2016 i fis Mai 2017	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	19	0	0
1.2 Llywodraethu	18	1	0
1.3 Cynllunio Ymlaen	18	1	0
1.4 Adnoddau: Gofod	15	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	19	0	0

1.6 Adnoddau: Gweithlu	17	2	0

Casgliadau

2013 i fis Mai 2014	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
1.1 Rheoli Casgliadau	13	1	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	10	4	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	7	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	12	2	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	8	6	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
1.1 Rheoli Casgliadau	13	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	8	5	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	7	6	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	11	2	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	13	0	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	0	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	10	3	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	3	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	12	1	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
2.1 Rheoli Casgliadau	16	3	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	19	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	6	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	18	1	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	12	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am	19	0	0

Gasgliadau			
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	16	3	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	19	0	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	10	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	18	1	0

Rhanddeiliaid a'u Profiadau

2013 i fis Mai 2014	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	11	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	14	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	14	0	0

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	13	0	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	13	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	13	0	0

Mehefin 2015 i fis Mai 2016	**Wedi'i Gyflawni**	**Cyflawni'n Rhannol**	**Heb ei Gyflawni**
3.1 Polisi Mynediad	16	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	16	3	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	15	4	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	18	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	17	2	0

3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	19	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	18	1	0

6) <u>Camau Gweithredu Gofynnol a Chamau Gweithredu i Wella ar Lefel Gofynion</u>

2013 i fis Mai 2014	Camau Gweithredu Gofynnol a bennwyd	Camau Gweithredu Gwella a bennwyd
1.1	1	1
1.2	1	3
1.3	0	4
1.4	0	11
1.5	0	4
1.6	1	6
2.1	0	4
2.2.1	1	0
2.2.2	0	2
2.3.1	1	2
2.3.2	0	1
2.3.3	0	0
2.4.1	1	3
3.1	0	8
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	3
3.3.1	0	1
3.3.2	2	3
3.3.3	0	3

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Camau Gweithredu Gofynnol a bennwyd	Camau Gweithredu Gwella a bennwyd
1.1	0	0
1.2	0	4
1.3	2	0
1.4	8	15
1.5	0	1
1.6	0	4
2.1	0	3
2.2.1	0	4
2.2.2	1	8
2.3.1	0	5
2.3.2	1	2
2.3.3	0	1
2.4	3	7

2.4.1	0	3
2.4.2	3	0
2.4.3	2	2
2.4.4	4	0
3.1	0	4
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	2
3.3.1	0	3
3.3.2	0	2
3.3.3	0	2

Mehefin 2015 i Mai 2016	Camau Gweithredu Gwella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	3	1
1.2	3	3
1.3	4	3
1.4	17	9
1.5	6	0
1.6	6	3
2*	1	0
2.1	8	0
2.2		
2.2.1	7	0
2.2.2	5	1
2.3*	3	1
2.3.1	0	0
2.3.2	7	2
2.3.3	0	0
2.4*	7	0
2.4.1	1	2
2.4.2	3	1
2.4.3	6	11
2.4.4	2	3
3		
3.1	9	1
3.2*	5	0
3.2.1	8	1
3.2.2	3	1
3.2.3	5	1
3.3*	2	1
3.3.1	1	0
3.3.2	0	2
3.3.3	3	0